# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams - Is-Gadeirydd yn y Gadair<br><br>Cynghorwyr E.G. Davies, W.I. Hughes, W.T. Hughes, Eric Jones, H. Eifion Jones, G.W. Roberts OBE, Elwyn Schofield. |
| **WRTH LAW**: | **Aelodau Galw i Mewn** – Cynghorwyr T.H. Jones, Bob Parry OBE Comisiynydd Mrs. Margaret Foster. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr R. Dylan Jones, Selwyn Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (AD),<br>Rheolwr Sgriwtini (BS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Eric Jones ddiddordeb fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gymdeithas yr Henoed Gwynedd a Môn a Chyngor ar Bopeth Ynys Môn a gadawodd ar ddechrau’r cyfarfod.

Datganodd y Cynghorydd G.O. Parry ei fod yn Llywydd Cyngor ar Bopeth Ynys Môn ond fe arhosodd yn y cyfarfod gan roi datganiad byr fel gwyliedydd yn y cyfarfod.

**2 MATER A GYFEIRIWYD I’R PWYLLGOR I’W YSTYRIED MEWN PERTHYNAS Â GALW PENDERFYNIAD I MEWN**

Roedd ffurflen Galw Penderfyniad i Mewn, wedi’i chwblhau a’i harwyddo gan 5 Aelod o'r Cyngor Sir sef, y Cynghorwyr Lewis Davies (Aelod Arweiniol Galw i Mewn), E.G. Davies, W.I. Hughes, T.H. Jones, Bob Parry OBE wedi’i rhoi gerbron y Pwyllgor mewn perthynas â Phenderfyniad y Comisiynwyr a gymerwyd gan Mrs Margaret Foster ar gyfer y Gwasanaethau Cymunedol.

Roedd Cofnod o’r Penderfyniad dyddiedig 3 Mai, 2012 ynghyd â chofnod o’r penderfyniad wnaed gan y Comisiynydd ac adroddiad eglurhaol yn amlinellu'r rhesymau tros y penderfyniad wedi’i gyflwyno fel rhan o'r Rhaglen ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Cynghorydd Lewis Davies fel yr Aelod Galw i Mewn Arweiniol amlinelliad o’i resymau tros alw’r penderfyniad i mewn. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a’r Comisiynydd Mrs Margaret Foster gan fanylu ar eu camau gweithredu a chadarnhau i’r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r polisïau cyfredol ar y gyllideb, fel y cytunwyd gan y Cyngor. Rhoddwyd cyfle i’r aelodau fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â'r bwriadau i fuddsoddi yn y Sector Gwirfoddol yn ystod 2012/13 a mynegwyd eu pryderon ynglŷn â dyblygu’r gwasanaethau a gynigir gan y sefydliadau sy'n derbyn y cyllid gan yr Adran Cymunedau. Dywedodd y Swyddog bod y Cyngor yn bwriadu gosod gostyngiad 5% ar gyllid craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr 3$^{ydd}$ sector yn ystod 2012/13 er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd. Yn dilyn trafodaethau pellach awgrymodd y Cynghorydd G.W. Roberts OBE a'r Cynghorydd Elwyn Schofield y dylai’r Pwyllgor gefnogi'r penderfyniad a wnaed gan y Comisiynydd a bod yr Adran Gymunedau’n ymchwilio i werth y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliadau a chwilio am unrhyw ddyblygu gwasanaethau yn barod ar gyfer 2013/14. Nododd y Cadeirydd y weithdrefn a'r tri opsiwn oedd ar gael i'r Pwyllgor yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a gofynnodd iddynt ddangos dwylo i gefnogi'r penderfyniad, ac fe’i cariwyd.

**PENDERFYNWYD :-**

- **I gefnogi'r penderfyniad wnaed gan y Comisiynydd Mrs Margaret Foster yng nghyswllt yr arbedion effeithlonrwydd o 5% yng nghyswllt y Sector Gwirfoddol am 2012/13;**
- **bod yr Adran Gymunedau'n ymchwilio i werth y gwasanaethau a gynigir gan y sefydliadau y mae'r awdurdod yn eu cefnogi ac i chwilio am unrhyw ddyblygu gwasanaethau, yn barod am 2013/14.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**